



Traddodiad Barddol – CA5

Tasg 8: Traddodiadau

Hen Bethau Thomas, G. 2005. *Apocalups Yfory*, Barddas: Llandybïe, t. 28

Rai dyddiau ar ôl dechrau'r flwyddyn

Daw hi'n amser i dynnu i lawr y celyn

A dod i'r Nadolig a fu mewn bocsys

A'i gario i fyny i'r atig.

Daeth eto heibio yr hen ddefod honno

O blygu lliwiau a rhoi addurniadau

Y llawenhau a fu yn ôl yn eu llefydd.

Ac yno dan do y tŷ

Y mae rhywun yn taro

Ar ddarnau o Nadoligau a fu

Sy'n dal yn yr atig o hyd.

Yn y gerdd hon mae Gwyn Thomas yn disgrifio rhywbeth sy'n rhan o draddodiad ei Nadolig. Mae'n disgrifio'r arfer o fynd â'r addurniadau yn ôl i'r atig ar ddechrau'r flwyddyn newydd.

Yn y pennill clo, gwelwn y bardd yn myfyrio dros y profiad hwn, ac wrth wneud hynny, mae'r gerdd yn symud o'r profiad penodol i brofiad mwy cyffredinol, rhywbeth efallai sy'n berthnasol i lawer o ddarllenwyr.

1. Meddyliwch am rywbeth sy'n 'draddodiad' yn eich bywyd chi; efallai rhywbeth sy'n digwydd ar ryw adeg arbennig bob blwyddyn yn eich cartref neu yn yr ysgol.
2. Ewch ati i lunio cerdd am y profiad, gan ganolbwyntio'n ofalus ar bob math o fanylion. Efallai hoffech chi orffen eich cerdd gyda ryw sylw sy'n fwy cyffredinol, rhywbeth all dynnu'r darlennydd i mewn hyd yn oed os nad yw'r darlennydd wedi cael profiad o'r un traddodiad.



Y mae yma Donka, lorri
O hyd yn gryf a heb ei thorri
Trwy'r holl haldio a fu arni.

Y mae yma goetj, mae yma ddoli
Y bu'r gofal amdani hi'n dyner
Dro byd, dro byd yn ôl.

A daw rhywun i lawr o'r atig
Ag atgofion sy'n tywynnu gan lawenydd byd a fu.
A hwnnw yn gymysg â rhywbeth prudd
Am bethau, am byth, a aeth heibio.